# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Chwefror 2026

Amser: 13.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru


# O bell - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.50 - 14.00)

**Offerynnau sy'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd, neu'r hyn a elwid gynt yn weithdrefn negyddol**

**5.2 SL(6)697 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025**

(Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-26 - Papur 43 - Adroddiad

LJC(6)-04-26 - Papur 44 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.3 SL(6)720 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

(Tudalennau 4 - 7)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 45 - Adroddiad

LJC(6)-05-26 - Papur 46 - Ymateb Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.00 - 14.05)

**Dogfennau atodol:**

### 6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

(Tudalen 8)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 47 - Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a'r Prif Chwip, a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau, 5 Chwefror 2026

## 7 Papurau i'w nodi

(14.05 - 14.15)

### 7.10 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

(Tudalen 9)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 48 - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 6 Chwefror 2026

### 7.11 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd ac Etholiadau Aelodau)

(Tudalennau 10 - 11)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-05-26 - Papur 49 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 6 Chwefror 2026

# SL(6)697 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 ("Rheoliadau 1993") yn darparu ar gyfer newid rhestrau prisio'r dreth gyngor, a gwneud apelau i Dribiwnlys Prisio Cymru pan fo anghytundeb rhwng swyddog rhestru a pherson sy'n gwneud cynnig ar gyfer newid rhestr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 1993. Y prif ddiwygiadau yw gosod gofyniad ar swyddogion rhestru i ddarparu gwybodaeth am eiddo i drethdalwyr sydd wedi gwneud cynnig cymwys ("cynigydd"), a chaniatáu i gynigwyr apelio'n uniongyrchol i Dribiwnlys Prisio Cymru yn erbyn penderfyniadau gan y swyddog rhestru, neu yn dilyn methiant gan swyddog rhestru i wneud penderfyniad o fewn pedwar mis ar ôl cael cynnig. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn rhoi pwerau rheoli achos ychwanegol i Dribiwnlys Prisio Cymru sydd eisoes ar gael iddo wrth wrando ar apelau mewn perthynas â newid rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynigion a wneir ar 1 Chwefror 2026 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 9, mae'r geiriau mewn cromfachau ar ôl cyfeirio at "rheoliad 11" wedi'u nodi'n anghywir fel "(tynnu **apelau** yn ôl)". Fodd bynnag, dylai nodi "(tynnu **cynigion** yn ôl)" gan mai "withdrawal of **proposals**" yw'r pwnc a nodir ym mhennawd rheoliad 11 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 11(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi y bydd cyfeiriad newydd yn cymryd lle cyfeiriad presennol yn rheoliad 15(3)(b) o Reoliadau 1993 yn Saesneg, "10 **or** 10C". Ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi y bydd cyfeiriad newydd yn cymryd lle'r cyfeiriad presennol yn Gymraeg, "10 **neu** 10C". Fodd bynnag, dylai testun Cymraeg rheoliad 11(b) hefyd fewnosod y cyfeiriad newydd yn Saesneg oherwydd mai dim ond yn Saesneg yn hytrach nag yn ddwyieithog y gwnaed Rheoliadau 1993.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 14, yn rheoliad 19(2) newydd, disgrifir y cyfeiriad yn anghywir fel "**sub-paragraphs** (1)(a) or (c)". Fodd bynnag, y disgrifiad cywir yw "**paragraph** (1)(a) or (c)". Mae hefyd yn anghyson â chyfeiriadau eraill a ddisgrifir yn gywir yn y diwygiadau testunol megis y cyfeiriad at "paragraph (2)(b) or (c)" yn rheoliad newydd 25D(3) a fewnosodir gan reoliad 17 o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025**

Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2 a 3: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwyntiau adrodd a bydd yn ceisio gwneud y newidiadau drwy slip cywiro.

# SL(6)720 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio amryw reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cyllid myfyrwyr, ac mewn cysylltiad ag ef.

Maent yn:

- estyn y meini prawf cymhwystra er mwyn i bartneriaid a phlant cyn-aelodau o'r Gurkhas ac o unedau milwrol Hong Kong, sydd wedi marw ac a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997, fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr a gallu manteisio ar ddarpariaeth diogelu ffioedd;
- eithrio myfyrwyr o dan gynllun bwrsariaeth GIG Cymru sy'n dibynnu ar brawf modd a myfyrwyr yn eu blwyddyn ryngosod rhag bod yn gymwys ar gyfer y benthyciad wythnosau ychwanegol;
- galluogi myfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal i wneud cais am Grantiau ar gyfer Dibynyddion ar sail nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd;
- darparu ar gyfer darpariaethau terfynu sy'n rhan o reoliadau cyrsiau ôl-raddedig i bersonau y mae eu caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi fel partner a ddiogelir wedi dod i ben;
- dirymu Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 a gwneud dirymiadau a hepgoriadau canlyniadol; a
- gwneud diwygiadau technegol ychwanegol i wella eglurder rheoliadau a/neu ddileu darpariaethau nad oes eu hangen mwyach, er enghraifft o ran benthyciadau Ffioedd Colegau Rhydgrawnt (Oxbridge), coronafeirws, a chymhwystra ar gyfer darpariaethau diogelu ffioedd.

## Y weithdrefn

Gweithdrefn annilysu'r Senedd.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(x) – ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Senedd**

Nodwn y torrir y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn sy'n destun gweithdrefn annilysu'r Senedd gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad dros y toriad a ddarparwyd gan Vikki Howells AS, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 19 Ionawr 2026.

Gwnaed y Rheoliadau ar 13 Ionawr 2026 ond ni chawsant eu gosod gerbron y Senedd tan 16 Ionawr 2026. Daw'r Rheoliadau i rym ar 5 Chwefror 2026.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn nodi y "*bu oedi gyda'r broses gofrestru*". O ganlyniad i'r oedi wrth osod y Rheoliadau gerbron y Senedd, daw'r Rheoliadau i rym cyn i'r cyfnod o 21 diwrnod ddod i ben.

Nid yw'r llythyr yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch achos yr oedi hwnnw.

Mae'r llythyr yn mynd ymlaen i esbonio: "*Rhaid i'r Rheoliadau fod mewn grym erbyn 5 Chwefror er mwyn sicrhau bod system ymgeisio myfyrwyr y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf i bolisi cymorth i fyfyrwyr cyn i'r cyfnod ymgeisio lansio.*"

Gofynnir i Lywodraeth Cymru roi esboniad pellach ynghylch y rheswm dros yr oedi gyda'r broses gofrestru.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 53 yn mewnosod rheoliad newydd 12GA i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019. Fodd bynnag, ymddengys fod gwall yn y fformatio sydd â'r effaith o newid ystyr y rheoliad newydd.

Ymddengys y bwriadwyd i'r geiriau "Personau y mae eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel partner a ddiogelir wedi dod i ben" fod yn bennawd sy'n dod o flaen y rheoliad, yn hytrach na'n ffurfio rhan o'r rheoliad ei hun. Os felly, dylai rhif y rheoliad "**12GA**" ymddangos ger "Pan—", fel iddo ddod yn air agoriadol y rheoliad hwnnw.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae paragraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn egluro fel a ganlyn:

*"Mae nifer o'r diwygiadau yn dechnegol eu natur ac yn ofynnol i weithredu polisi presennol neu i ddileu darpariaeth/cyfeiriadau rheoleiddiol diangen. Mae'r diwygiadau i estyn y meini prawf cymhwystra yn sicrhau bod partneriaid a phlant cyn-aelodau o'r Gurkhas ac o unedau milwrol Hong Kong, sydd wedi marw ac a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997, yn gymwys i gael cymorth polisi presennol 'Cenedl Noddfa' Llywodraeth Cymru."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Gwnaed Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 am 20:03 ddydd Mawrth 13 Ionawr ac fe'u cyflwynwyd i wefan gyhoeddi'r Archifau Gwladol am 10:00 ddydd Mercher 14 Ionawr. Bu oedi yn y broses gofrestru wedi hynny sy'n golygu y bydd y Rheoliadau yn dod i rym cyn i'r cyfnod o 21 o ddiwrnodau ddod i ben. Y rheswm dros yr oedi oedd bod nifer mawr o Offerynnau Statudol yn cael eu prosesu gan yr Archifau Gwladol ar yr adeg honno ledled y DU. Gosodwyd y Rheoliadau gerbron y Senedd ar y cyfle cyntaf posibl, sef 16 Ionawr 2026.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Rydym yn cytuno bod problem o ran y fformadu yn y ddarpariaeth a fewnosodir gan reoliad 53, sef bod pennawd y rheoliad yn ymddangos ar ôl rhif y ddarpariaeth yn hytrach nag uwch ei ben. Byddwn yn cysylltu â'r Archifau Gwladol i weld sut y gellir cywiro'r gwall fformadu. Nid ydym yn meddwl ei fod yn newid effaith gyfreithiol y ddarpariaeth a fewnosodir.

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/74/26


Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

5 Chwefror 2026

Yn ychwanegol at fy llythyr ar 5 Ionawr 2026 ac yn unol â'r Cytundeb Rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i dynnu'ch sylw at y **Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol** yn crynhoi'r trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod cyntaf Grŵp Rhyngweinidogol y Pedair Gwlad ar Waith a Phensiynau ar 19 Ionawr 2026.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder
a'r Cyfansoddiad

SeneddLJCC@senedd.wales

6 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

Yn dilyn yr ymateb a gyflwynwyd i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru), ysgrifennaf i'ch diweddaru ar yr ymateb i argymhelliad 4 yr adroddiad.

Roedd yr argymhelliad hwn yn cynnig rhoi'r gair "paragraff" yn lle "adran" ym mharagraff 12(2) o Atodlen 2. Roeddwn wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac yn fy ymateb, ymrwymo i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i wneud y newid hwn. Yna cadarnhawyd y byddai'r newid yn cael ei wneud i'r Bil fel cywiriad argraffu ac felly ni chafodd unrhyw welliant ei gyflwyno.

Daeth trafodion Cyfnod 2 ar y Bil i ben ar 28 Ionawr a dechreuodd Cyfnod 3 ar 29 Ionawr. Mae'r fersiwn o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2, wedi cael ei chyhoeddi ers hynny ac mae'n adlewyrchu'r newid yn eich argymhelliad, a wnaed fel cywiriad argraffu.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 7.11

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS/MS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

6 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

Fel yr ymrwymais i'w wneud, rwy'n ysgrifennu atoch yn sgil fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ynghylch Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd ac Etholiadau Aelodau), yn benodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r mater yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn cael cydsyniad Gweinidog y Goron ynghylch darpariaethau yn adran 4 o'r Bil. Rwyf hefyd yn rhoi eglurhad, fel y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor, o ran y manylion a nodwyd yn argymhellion 8 a 9 o adroddiad y Pwyllgor.

O ran cydsyniad Gweinidog y Goron, mae Llywodraeth Cymru wedi ymwneud yn gadarnhaol ag adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU, a hwyluswyd hyn gan Swyddfa Cymru. Rydym yn parhau i gydweithio yn gynhyrchiol ac yn ddi-oed er mwyn cael y cydsyniadau priodol y mae eu hangen. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a Phwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau wrth i'n trafodaethau fynd rhagddynt a dirwyn i ben.

O ran argymhelliad 8 a 9, cyfyngedig yw'r berthynas rhwng y darpariaethau yn adran 11 o'r Bil (y rheoliadau sy'n ymwneud â phôl adalw) ac adran 22 o'r Bil, sy'n cynnwys y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu'r drosedd i wahardd gwneud, neu gyhoeddi, datganiadau o ffaith anwir neu gamarweiniol. Maent yn ymdrin â dau bŵer ar wahân i wneud is-ddeddfwriaeth ac yn ymwneud â dau ddigwyddiad etholiadol gwahanol, er hynny, ceir cysylltiad. Daw'r berthynas gyfyngedig rhwng adran 11 o'r Bil ac adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") fel y'i diwygiwyd gan adran 22 o'r Bil o ganlyniad i adran 11(3)(a)(ii), sy'n darparu pŵer i gymhwyso neu ymgorffori darpariaethau a wneir gan Orchymyn o dan adran 13 o Ddeddf 2006, neu o dan Orchymyn o'r fath. Unwaith y bydd trosedd yn cael ei chreu a'i hychwanegu at y troseddau (etholiadol) presennol a nodir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) yn unol â'r ddyletswydd yn adran newydd 13(2A), effaith hyn yw y gellid cymhwyso neu ymgorffori'r drosedd honno wedi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hynny mewn rheoliadau a wneir o dan adran 11 ynghylch cynnal polau adalw, a hynny yn rhinwedd y ddarpariaeth yn adran 11(3)(a)(ii) o’r Bil.

Mae diwygio adran 13 o Ddeddf 2006 gan adran 22 o’r Bil, ar y cyd ag adran 11(3)(a)(ii), yn rhoi y tu hwnt i amheuaeth y gallai rheoliadau o dan adran 11(1) gynnwys math o ddarpariaeth sy’n ofynnol ac a awdurdodir gan adran 13 o Ddeddf 2006 fel y byddai’n cael ei diwygio.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery